# Cynnydd yng nghyflogau ACau

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

24 Mai 2016

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais, a ddaeth i law ar 18 Mai. Ynddo, gwnaethoch ofyn:

> *'... am restr o holl Aelodau'r Cynulliad sydd neu a fydd yn derbyn y codiad cyflog anferthol o £10,000 a ddyfarnwyd iddynt ar ddechrau eu cyfnod fel Aelodau ar ôl etholiadau 5/5/2016''*

Mae'r Bwrdd Taliadau yn fwrdd annibynnol a sefydlwyd yn 2010 i edrych ar gyflogau a lwfansau Aelodau'r Cynulliad (Aelodau). Prif swyddogaeth y Bwrdd yw sicrhau bod gan Aelodau'r Cynulliad yr adnoddau cywir i gyflawni'u gwaith yn iawn. Sefydlwyd y Bwrdd Taliadau gan Fesur Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Taliadau) 2010.

Gwnaed y penderfyniad ar ddyfarnu cyflog llawn i Aelodau yn y cyfarfod ar 10 Rhagfyr 2015.

Cyhoeddwyd diweddariad yn dilyn y cyfarfod a rhoddir isod:

***Cyflogau Aelodau'r Cynulliad***
*Ar ôl cryn waith ymchwil ac ystyriaeth, pennodd y Bwrdd blaenorol gyflog sylfaenol yr Aelodau, a chyflogau ychwanegol i ddeiliaid swyddi, a fydd yn cael eu talu yn y Cynulliad nesaf. Buom yn trafod a ddylid parhau â'r hyblygrwydd presennol, sy'n caniatáu i Aelodau wrthod rhan o'u hawl cyflog. Rydym yn gadarn o'r farn y dylid rhoi'r tâl priodol i'r Aelodau i adlewyrchu cymhlethdod a phwysigrwydd y rôl. Mae hyn hefyd yn cyd-fynd â'n dyletswydd i beidio ag atal, am resymau ariannol, personau sydd â'r ymrwymiad a'r gallu angenrheidiol rhag ceisio cael eu hethol.*


Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 0300 200 6544
E-bost/Email: Assembly-Accesstoinformation@Cynulliad.Cymru
Assembly-Accesstoinformation@assembly.wales


**Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh**

*Rydym yn cytuno, felly, y bydd yr Aelodau yn y Pumed Cynulliad yn cael eu cyflog sylfaenol, ac unrhyw gyflog deiliad swydd ychwanegol sy'n berthnasol, a hynny'n llawn.*
*Wrth gwrs, ar ôl derbyn y cyflog, mater i bob Aelod unigol yw sut y maent yn dewis ei ddefnyddio. Gall y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau roi cyngor ac arweiniad os bydd unrhyw Aelod yn dymuno cymryd rhan yng nghynllun rhoi trwy'r gyflogres y Cynulliad neu ddewisiadau eraill o'r fath.*
*Byddwn yn ysgrifennu at Gomisiwn y Cynulliad i roi gwybod iddo am ein penderfyniad fel y gall y tîm Cymorth Busnes i'r Aelodau adlewyrchu hyn yn ei drefniadau a'i gyngor i'r Aelodau.*

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn www.cynulliadcymru.org/cy/abthome/about_us-commission_assembly_administration/abt-foi/Pages/abt-foi-cop-pub.aspx
Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, dilynwch y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Swyddog Rhyddid Gwybodaeth a Chymorth Prosiect**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

A oes gennych achos dros bryderu neu gwyno am yr ymateb i'ch cais am wybodaeth?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod yn briodol yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.assembly.wales/cy/help/contact-the-assembly/con-complaint/Pages/con-complaint-procedure.aspx. Rhowch wybod imi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF